



CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB
Maer: Cyng Chris Jones Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding

AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER, Chwefror yr 8fed 2023 (wedi'i ail-drefnu oherwydd salwch staff)

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol, neu ragfarnol)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Ionawr yr 11^{eg} 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn gwybodaeth bellach a chymeradwyo'r cyfraniadau ariannol ar gyfer Prosiect Gwasanaethau Cynaliadwy CBSC 2023/24
 1. Pwll Padlo
 2. Gwasanaeth Llyfrgell Gymunedol
 3. CCTV
7. Derbyn gwybodaeth a thrafod Cynllun Cymunedol Kickstarter sydd i'w lansio ar Chwefror y 1^{af} 2023
8. Derbyn a chymeradwyo drafft o'r Calendr Digwyddiadau Cymunedol 2023
9. Derbyn gwybodaeth a thrafod Baneri Dydd Gŵyl Dewi Sant
10. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo gosod rhagor o feinciau yn y dref
11. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cais grant Gefeillio Trefi a137
12. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Chwefror 2023
13. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Chwefror 2023

Taliadau i'w cyflwyno	
1.	Sional Baner Cymru ar gyfer y polyn baneri x 2 £70.80
2.	Kirsty Merrell Daily Trwydded TENS ar gyfer Chwefror £21.00
3.	Sgipiau Cymunedol CBSC £288.00
4.	Cyflogau'r Staff a'r Cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Tachwedd 2022 £4700
5.	Cyfieithiadau Menter Iaith £300.00
6.	Gof Gareth Roberts – Cynhyrchu a gosod ar gyfer prosiect Meinciau Llanfairfechan £3220.00
7.	Llogi Neuadd Gymunedol y Dref ar gyfer marchnad Ionawr £120.00
8.	Gareth Roberts Newid baneri siopau ym mis Ionawr £228.00
9.	Delwedd Tystysgrifau SSL ar gyfer y wefan £182.30
Prosiect Gwella Glan y Môr Elias gyda Chyllid Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (EnRaw)	
1.	Blychau Arddangos Poster Gostyngol £1175.94
Taliadau ôl-ddyddiedig	
1.	Kirsty Merrell Daily Tanysgrifiad blynyddol Canva £107.88
2.	Viking nwyddau swyddfa a chynnyrch glanhau £258.35

14. Trafod materion cynllunio
 1. Cais cyn-cynllunio gan Gartrefi Castle Green Ffordd Penmaenmawr
 2. 0/50393 23 Ffordd Parc Llanfairfechan LL330AE
15. Derbyn gohebiaeth
 1. e-bost ynghylch sgipiau cymunedol a Nant y Berllan

2. e-bost ynghylch y cynnydd am y CCTV ym maes parcio Ffordd yr Orsaf
16. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd
17. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF AR NOS FERCHER, CHWEFROR YR 8^{fed} 2023

Presennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Laura Fielding; Maer Chris Jones (ar Zoom); Cyng Leena Farhat (ar Zoom); Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Claire Hughes; Cyng Nia Jones (ar Zoom); Cyng Elgan Owen; Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg (ar Zoom); Clerc y Dref Jayne Neal

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
Cyng Sir Penny Andow; Cyng Gareth Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Pat Griffiths

Penderfynwyd derbyn a nodi
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol neu ragfarnol)
Eitem 11 Cyng Christine Roberts aelod pwyllgor

Penderfynwyd derbyn a nodi
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.
Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol i drafod eitem 14:1. Cytunwyd symud yr eitem yn uwch ar yr agenda er mwyn yr aelod dan sylw. Cais cyn-cynllunio gan Gartrefi Castle Green Ffordd Penmaenmawr
Bu i'r preswlydd sôn am sawl pryder ac roedd yn dymuno gwybod a fyddai'r Cyngor Tref yn gwrthwynebu'r cais i adeiladu 55 o gartrefi newydd ar y safle ai pheidio. Dywedodd y Cadeirydd nad oes modd inni ateb y cwestiwn hwnnw ar hyn o bryd. Cafodd y cais cyn-cynllunio ond ei gyhoeddi'n ddiweddar ac mae angen i'r Cyngor Tref gasglu mwy o wybodaeth a thrafod y cais cyn llunio ymateb. Trafodwyd y mater fel a ganlyn:
 1. Pryder ynghylch y nifer o dai fforddiadwy ac a fyddai'r rhain ar gael yn benodol i'r preswylwyr. Dengys y data bod nad ydy'r cyflenwad tai presennol yng Nghonwy yn bodloni'r gofynion o ran tai. Os caiff tai newydd eu hadeiladu, mae'n rhaid eu gwerthu am bris y gallai preswylwyr presennol Conwy eu fforddio. Mae sôn y bydd 10 tŷ fforddiadwy sef 18% o'r holl dai. Mae hyn yn rhagori ar drothwy'r llywodraeth ond mae'n bosibl y byddai modd darbwyllo'r adeiladwyr i adeiladu 11 i gyd. At hyn, soniwyd y dylid ceisio sicrwydd y caiff y tai hyn eu hadeiladu ar y safle a'u bod ar gael i breswylwyr lleol. Ni ddylid gwerthu'r tai fel ail gartrefi neu fel tai prynu i'w rhentu.
 2. Bu i breswlydd godi pryder ynghylch maint yr ardal a'r cynllun i adeiladu 55 tŷ – dydy'r safle ddim yn ymddangos yn ddigon mawr. Mae'n rhaid i'r cwynion fod yn unol â'r ddeddf cynllunio ac ymysg y rhain mae gorddatblygu'r llain o dir. Soniwyd bod cysail yn y tai sydd wedi'u hadeiladu ym Mhenmaenmawr lle mae 44 o dai wedi'u hadeiladu ar lain o dir sydd oddeutu'r un maint. Clerc i e-bostio cynghorau tref eraill i'w holi am eu profiadau nhw yn eu hardaloedd nhw.
 3. Mae rhes o goed yn yr ardal – mae'n bosibl bod Gorchymyn Cadw Coed (TPO) ynghlwm â nhw felly ni fydd modd cael gwared arnyn nhw.
 4. Soniwyd am bryderon ychwanegol ynghylch y pwysau ar Ffordd Penmaenmawr a gan fod dim ond un ffordd mynediad i'r ystâd arfaethedig. Mae pwysau traffig yn yr ardal eisoes – gellir casglu data ynghylch hyn. Clerc i gysylltu gydag Adran Priffyrdd CBS Conwy i gaffael rhagor o wybodaeth.
 5. Mae'r datganiad eco ar y cais cyn-cynllunio yn aneglur o ran a fyddai hwn yn brosiect tai ynni goddefol ai pheidio. Byddai'r Cyngor Tref yn cefnogi dull carbon sero a byddwn yn ceisio mwy o wybodaeth am hyn.
 6. Bu pryder ynghylch ystafelloedd o feintiau digonol yn y tai. Mae gan nifer o ddatblygiadau tai ystafelloedd bach sy'n annerbyniol.
 7. Bydd y Cyngor yn gofyn bod y ddeddfwriaeth Adran 106 yn darparu cymorth seilwaith ar gyfer prosiectau yn yr ardal, yn enwedig ar gyfer Neuadd Pendalar a chyfleusterau yn y pen hwnnw o'r dref.
 8. Mae'r pwysau ar y Meddyg Teulu'n bryder sylweddol. Mae nifer o ddatblygiadau tai wedi'u hadeiladu ym Mhenmaenmawr hefyd a, gan eu bod nhw'n rhannu'r feddygfa, bydd hyn yn cael effaith yn ogystal. Mewn cyfarfod blaenorol gyda'r Meddyg Teulu, cynigwyd data i'r cyngor tref ynghylch y cyfrannau o gleifion sy'n defnyddio'r feddygfa ledled y gwahanol drefi. Clerc i gysylltu gyda'r Feddygfa i ofyn am y data a chaffael eu barn nhw ynghylch y cynnig adeiladu hwn.
 9. Codwyd ymholiad ynghylch sut byddai'r cynnig hwn yn effeithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Ffordd Cae Ffynnon. Clerc i e-bostio tîm Cynllun Datblygu Lleol Conwy i ofyn am eglurhad.

Estynnwyd diolch i'r preswilydd am ddod i'r cyfarfod ac fe gytunwyd i anfon y cofnodion ac unrhyw wybodaeth bellach ato

Penderfynwyd derbyn a nodi

5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Ionawr yr 11eg 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12)

Dim materion yn codi o'r cofnodion.

Rhestr weithredu fel a ganlyn:

Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council Action List		
Date: 8th February 2023		
Item:	Date:	Progress
Nant y Pandy car park	10/01/2023	awaiting lease to be drawn up
Paddling Pool		on agenda
Promenade car park & flood protection	04/10/2022	no further information
Bus stop damage Y Bont west	10/01/2023	email sent to CCBC
Benches project		on agenda
Station Road Garden	10/01/2023	to discuss - funding and agreement
Victoria Gardens beams	10/01/2023	items on order work will be completed soon
Glan y Mor Elias & Morfa Madryn project		ongoing - launch date planned for Sunday 19th March
Victoria Gardens gates		plans in development awaiting further details
MUGA West Shore	postponed	further information being collected about Shared Prosperity Fund
Cenotaph - mural	future meeting	on hold for discussion on future agenda
Community Library		on agenda
Petanque court	awaiting	reminder email sent 10/01/2023
Audit	completed	awaiting response no queries sent through
Kickstarter Community Plan		on agenda
Calendar of community events		on agenda
Flags project		on agenda
Meeting dates		calendar to be shared
Community Skip Dates		calendar to be shared

1. Rhestr sgipiau – mae'r sgipiau wedi'u trefnu ar gyfer 2023/24. Derbyniwyd gohebiaeth gan breswilydd yn holi am sgip ychwanegol yn Nant y Berllan. Bydd tri sgip pob blwyddyn yn Nant y Berllan, Pen Dalar a Ffordd Llannerch yn ogystal â sgipiau misol ar Ffordd yr Orsaf.
2. Dyddiadau cyfarfodydd drafft – mae angen newid un dyddiad
3. Maes parcio – Clerc i e-bostio CBS Conwy i dderbyn y diweddaraf. Mae'r Cyngor Tref yn anfodlon iawn nad ydy swyddogion Conwy wedi rhannu'r diweddaraf gyda ni am y cynnydd a'n bod ni wedi gorfod mynd ar drywydd gwybodaeth.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng G Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

6. Derbyn gwybodaeth bellach a chymeradwyo'r cyfraniadau ariannol ar gyfer Prosiect Gwasanaethau Cynaliadwy CBSC 2023/24

1. Pwll Padlo

Derbyniwyd y ffigyrau gan wasanaethau Hamdden Conwy ynghylch y costau ar gyfer y pwll padlo. Bu i'r Cyngor Tref gytuno ar gyfraniad o £1883.00 yn flaenorol ond mae Conwy yn gofyn am £3785 yn 2023/24 gan eu bod yn dweud bod y costau wedi dyblu. Codwyd cwestiynau am hyn gan nad ydy'r ffigwr staffio yn dangos cynnydd ac mae'r ffigwr Atgyweirio a Chynnal a Chadw yn seiliedig ar atgyweiriad cyfalaf felly ni ddylai fod yn gynnydd blynyddol. Roedd y Cyngor Tref wedi caniatáu cynnydd o £500 yn eu cyllideb 2023/24 felly fe gytunwyd y dylid cynnig hyn. Clerc i geisio eglurder ynghylch y ffigyrau sydd wedi'u cwestiynu. Soniwyd bod profion llithro ar waith ar hyn o bryd ledled holl byllau padlo Conwy ac os oes unrhyw broblemau'n codi, mae'n bosibl y bydd yn rhaid cau'r pyllau oherwydd byddai'n costio £250,000 i'w hatgyweirio. Clerc i adrodd yn ôl gyda'r wybodaeth cyn gynted â phosibl.

2. Gwasanaeth Llyfrgell Gymunedol

Soniodd Rheolwr y gwasanaeth hwn ei fod yn annheg canolbwyntio toriadau ar y Llyfrgelloedd Cymunedol ac mae wedi gofyn am adolygiad gwasanaeth llawn i weld lle gellir gweithredu toriadau. Ni chaiff unrhyw staff eu diswyddo yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol ond does dim modd addo hyn ar gyfer 2024/25 ac fe gaiff rhagor o gyfraniadau eu ceisio gan y Cyngor Tref. Mae Clerc y Dref wedi cytuno ar £3000 ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell gymunedol. Cytunwyd cadw'r cyfraniad hwn yn y gronfa wrth gefn ar gyfer 2024/25.

Clerc i e-bostio CBS Conwy i'w hysbysu am hyn a chadarnhau bod yr arian hwn wedi'i gadw i'r llyfrgell pan fydd ei angen arnyn nhw.

3. CCTV

Mae cynnydd o £24.00 wedi'i nodi ar gyfer y CCTV felly fe gytunwyd ar hyn.
derbyn a nodi

Penderfynwyd

7. Derbyn gwybodaeth a thrafod Cynllun Cymunedol Kickstarter sydd i'w lansio ar ddiwrnod marchnad Chwefror y 19eg 2023

Caiff y cynllun ei lansio er mwyn i'r preswylwyr ymgynghori yn ei gylch yn y Farchnad Bwyd a Chrefftau ar Chwefror y 19eg. Mae preswylwyr wedi'u gwahodd i drafod unrhyw agwedd, ac yn sgil y cynnig datblygu tai Castle Green yn ddiweddar, bydd cyfle i gynnig sylwadau'n uniongyrchol am y mater hwn. Mae gan Bartneriaeth Cymunedol Llanfairfechan naw aelod sy'n breswylwyr a phum Cynghorydd Tref ynghlwm erbyn hyn ac maen nhw wrthi'n penderfynu ar y swyddogion ar gyfer eu cyfansoddiad. Bydd cyfarfod ffurfiol nesaf y grŵp am 7yh ar ddydd Iau, Mawrth yr 2il yn Siambr y Cyngor.

Penderfynwyd derbyn a nodi

8. Derbyn a chymeradwyo Calendr Digwyddiadau Cymunedol drafft 2023

Mae'r digwyddiadau drafft canlynol wedi'u trefnu eisoes ar gyfer 2023:



Dates 2023

• St Davids Day- Town Hall 3.30-6pm
TC to attend the community run event with Lucky Dip gifts

• Easter tree project
Wooden Easter eggs handed out to Ysgol Babanod pupils to decorate and return to the hall on 26th March Market to receive a chocolate Easter egg treat.

• Sunday 9th April - Easter Picnic at Victoria Gardens -
Event run by community team which TC will attend
with gazebos/ garden games/parachute games and possible link with Incredible Edibles

• Coronation -
Pupils from Ysgol Pant y Rhedyn to decorate/ design Coronation crowns which will then be handed in at 23rd April market to display in a Coronation window and small crown biscuits could be supplied by Sweet Snowdonia for crown design entries

• Town Twinning visit 20th May - Petanque and Picnic at Victoria Gardens

• Plant swap - at the Food & Artisan Market on 21st May

• Big Green Week 10th - 18th June Llanfairfechan Celebrates / clothes swap.

• Llanfest - 22nd July
Event run by community events team where TC will attend with a stall providing press on tattoos.

• Kite Event - Play day 30th July.
• Toy swap at the hall in the morning and Kite Festival taking place on the beach in the afternoon

• Halloween Pumpkins provided by TC to be handed out at the market on 22nd October ready for pumpkin trail etc

• Fireworks November (date to be confirmed)

Remembrance Service - 12th November

• Festive Fayre - 10th December
Brass Band, Choir, Street Fair, Food & Artisan Market, Community Market

Dydd Gŵyl Dewi – Clerc i e-bostio'r ysgol i wirio am yr Urdd ac ychwanegu gwerth at y digwyddiad sydd wedi'i drefnu yn y neuadd.

Coroni'r Brenin – penderfynwyd cyhoeddi ymgynghoriad er mwyn i'r preswylwyr leisio'u barn am y math o ddigwyddiad y dylid ei drefnu. Penderfynwyd trefnu ffenest y goron.

Cytunwyd ar yr holl weithgareddau arfaethedig, staff i fynd rhagddi gyda'r cynlluniau ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref.

Cynigwyd gan y Cyng C Roberts Eiliwyd gan y Cyng A Hinchliff Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

9. Derbyn gwybodaeth a thrafod Baneri Dydd Gŵyl Dewi Sant

Clerc i gyfarfod a gwirio a fyddai defnydd y baneri yn briodol ar gyfer y polion newydd. Os ydyn nhw, gellir ychwanegu Baneri Cymru ar gyfer Mawrth y 1^{af}. Hoffai Gefeillio Trefi hefyd ychwanegu baneri Llydewig ar gyfer yr ymweliad ym mis Mai. Clerc i gysylltu gyda Menter Iaith.

Penderfynwyd derbyn a nodi

Gan fod hwn yn gyfarfod a gafodd ei ail-drefnu, doedd sawl un o'r Cynghorwyr methu ag aros am y cyfarfod cyflawn. Bu i chwe chynghorydd aros am y 45 munud olaf. Gan hynny, roedd dros draean yn bresennol, felly roedd modd parhau i drafod y materion.

10. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo gosod rhagor o feinciau yn y dref.

Mae'r preswylwyr yn fodlon gyda'r meinciau metel hyd yn hyn ac mae angen gosod un fainc arall. Estynnwyd diolch i'r gof lleol am gynhyrchu a gosod y meinciau. Cytunwyd y dylid gosod y fainc olaf ger y groesffordd yn lle'r hen un yno sydd ag ôl traul arno. Caiff y plac teulu ei dynnu a'i osod ar y fainc newydd. Clerc i weithredu hyn a mynd rhagddi gyda'r cynllun i osod mainc picnic ym Mharc Pendalar. Cytunwyd y gellir gosod hyd at dri phlac ar y meinciau metel ond fe ddylid ond gosod dau ar y meinciau GyME oherwydd yr engrafiadau natur. Dylid hysbysu'r teuluoedd am y system newydd a rhoi cyfyngiad o 20 mlynedd ar y placiau. Gofynnodd un o'r preswylwyr am contractio'r gwaith gyda chyn-gynghorwyr lleol. Dengys ymchwil a'r dyfyniadau mai hyn fyddai'r opsiwn mwyaf priodol. At hyn, mae'n nod gan y Cyngor Tref i gefnogi busnesau Llanfairfechan lle'n bosibl.

Penderfynwyd derbyn a nodi

11. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cais grant Gefeillio Trefi a137

Mae'r cais grant wedi'i gyflwyno ac mae'r Cyngor Tref yn cytuno y dylid talu'r grant o £2000 i'r grŵp i dalu am y costau ar gyfer ymwelwyr i Lanfairfechan yn 2023.

Cynigwyd gan y Cyng L Fielding Eiliwyd gan y Cyng C Hughes Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

12. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Ionawr 2023 – Ni chodwyd unrhyw gwestiynau

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng C Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

13. Derbyn a chymeradwyo taliadau cyfredol ar gyfer Ionawr 2023 – Ni chodwyd unrhyw gwestiynau

Cynigwyd gan y Cyng C Hughes Eiliwyd gan y Cyng C Roberts Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

14. Trafod materion cynllunio – Wedi ymdrin â Castle Green eisoes. Y mater arall – dilyn cyngor y swyddog coed. Penderfynwyd derbyn a nodi

15. Derbyn gohebiaeth

1. Preswilydd yn holi pam fod dim ond dau sgip ger Nant y Berllan – pryderon ynghylch taflu sbwriel i mewn i'r afon. Rydym wedi mynd i'r afael â hyn ac rydym wedi trefnu 3 sgip ar gyfer 2023/24.

2. Cwestiwn gan breswilydd – pryder nad oes unrhyw ddiweddariad ynghylch gosod cctv i ymdrin â maes parcio Ffordd yr Orsaf ynghylch tipio anghyfreithlon? Clerc i e-bostio Conwy i ofyn am y diweddaraf ac i drefnu cyfarfod.

3. Cynnydd yng nghostau Delwedd:

Adroddiad bod y cwmni gwe-letya wedi cynyddu cost y tystysgrifau SSL fel a ganlyn: Tystysgrif SSL: Cynnydd o £4.92 y mis / £59.04 y flwyddyn i £6.33 y mis / £75.96 y flwyddyn. Penderfynwyd derbyn a nodi

16. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd

1. Cyfarfod Pwyllgor y Neuadd Gymunedol – bu hwn yn gyfarfod arbennig er mwyn trafod yr adroddiad ymweliad safle a chynaliadwydd y neuadd gan edrych tua'r dyfodol. Mae pryderon ynghylch lleithder yn sgil landeri annigonol a diffyg ynysu wedi'u nodi yn yr adroddiad Archwiliad Ynni. Mae cyllid ar gael ond mae'n anodd gan mai CBS Conwy sy'n berchen ar yr adeilad. Y cam cyntaf ydy galw cyfarfod gydag adran ystadau CBS Conwy i drafod y dyfodol a'r ffyrdd y gallwn ni fanteisio ar gyllid allanol i uwchraddio'r deunydd ynysu, y system wresogi a'r pŵer yn y neuadd. Clerc yn mynd rhagddi gyda hyn a bydd yn adrodd yn ôl i'r Cyngor.

2. Sesiwn Canolfannau Cynnes yn y llyfrgell. Mae'r sesiynau'n llwyddiannus ac mae preswylwyr yr ardal yn cynnal sesiynau â themâu gyda hyd at 17 o bobl yn mynychu'n rheolaidd. At hyn, mae'r sesiwn Canolfannau Cynnes gyda'r llyfrgellwyr ar ddydd Gwener hefyd yn llwyddiannus. Soniwyd bod Claire Hodgkinson wedi cynnig ei hamser cinio er mwyn i blant ysgol ddysgu mwy am y llyfrgell. Mae hyn oll yn newyddion ardderchog er mwyn bwrw iddi i sicrhau bod y llyfrgell yn ganolfan cymunedol llawn bwrlwm.
17. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys
 1. Mynegwyd pryder am y posibilrwydd o golli gwasanaeth bws rhif 75. Dydyn ni heb glywed am hyn ond y Clerc i e-bostio swyddog cyswllt CBS Conwy i ofyn a allai hyn ddigwydd.
 2. Cwynion am faw cŵn yn y dref ac awgrym y gallai'r Cyngor Tref gyflogi rhywun i gyflwyno dirwyon i unigolion sydd ddim yn clirio ar ôl eu ci. Soniwyd bod hyn yn broses gyfreithiol a ni fydd modd i'r Cyngor Tref fynd ati i drefnu hyn. Clerc i anfon e-bost at y Gwasanaethau Rheoleiddiol i ofyn am eu cyngor. Mae'r prosiect bagiau mewn argyfwng y Cyngor Tref yn parhau i helpu gyda lleihau'r broblem yn y dref. Mae'n rhaid i berchnogion cŵn gymryd cyfrifoldeb a chlirio mannau cyhoeddus. Gellir rhoi gwybod i CBS Conwy am faw cŵn ac fe gaiff y preswylwyr eu hannog i wneud hynny.
 3. Soniwyd bod y system ar-lein newydd yn y Feddygfa yn fwy effeithiol erbyn hyn. Dylid annog y preswylwyr i gofrestru a rhoi cynnig arno er mwyn gallu manteisio ar apwyntiadau'n rhwyddach. Dyma'r gwasanaeth: <https://www.plasmenaihealthcentre.co.uk/>
 4. Rydym wedi mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch diogelwch ym Mharc Crescent ac mae'r Cyngorydd Sir wedi cytuno i fwrw golwg ar fynediad i'r Crescent mewn argyfwng.
 5. Twnnel Ffordd yr Orsaf – dŵr yn gollwng. Cadarnhawyd bod y dŵr yn gollwng o'r afon ac fe gaiff gwaith ei gwblhau unwaith y bydd y mater wedi'i gytuno arno rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Asiantaeth Cefnffyrdd. Cafodd yr ardal ei raeau'n drylwyr yn ystod y tywydd rhewlyd diweddar a ni wnaeth y palmentydd rewi.
 6. Mae'r gollyngiad dŵr y tu allan i'r tŷ ger Nisa wedi'i atgyweirio erbyn hyn. Penderfynwyd derbyn a nodi

Daeth y cyfarfod i ben am 9:30yh. Bydd y cyfarfod nesaf am 7yh ar ddydd Mercher, Chwefror yr 22ain yn Siambr y Cyngor ac ar-lein.